Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru) – Datganiad o Fwriad y Polisi

Adran	Disgrifiad	Bwriad y Polisi
Adran 5 Yn mewnosod paragraff 13 newydd yn Atodlen 1 i Ddeddf Tai 1996	Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau sy'n pennu ffurf a chynnwys hysbysiad a roddir i Weinidogion Cymru, ynghyd â sut i'w gyflwyno, o dan baragraffau 9, 11, 12 neu 13 sy'n ymwneud â newidiadau cyfansoddiadol y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gall y cyfarwyddydau hefyd gynnwys terfyn amser o ran rhoi hysbysiad, yn ogystal â chael gwared â'r gofyniad i hysbysu. Gall y cyfarwyddydau fod yn rhai cyffredinol i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig penodol, neu i fathau arbennig o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gallant hefyd wneud darpariaeth am hysbysiadau yn gyffredinol, am hysbysiadau penodol neu am fathau arbennig o hysbysiadau.	Bydd y cyfarwyddydau'n pennu'r math o newidiadau y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru amdanynt. Bydd y rhain yn cynnwys ailstrwythuro, trefniadau'r cwmni ac atgyfansoddi, diddymu a newidiadau cyfansoddiadol. Bydd y cyfarwyddydau'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiad a'r cyfnod amser y mae'n rhaid rhoi'r hysbysiad ynddo. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o hysbysiad a gaiff ei roi. Bydd yr hysbysiad yn ôl-weithredol. Bydd y cyfarwyddydau hefyd yn pennu'r amgylchiadau lle nad oes angen hysbysiad.

Adran	Disgrifiad	Bwriad y Polisi
Adran 14 Yn mewnosod adran 9(3) yn Neddf Tai 1996	Caiff Gweinidogion Cymru roi cyfarwyddydau sy'n pennu ffurf a chynnwys hysbysiad a roddir i Weinidogion Cymru, ynghyd â sut i'w gyflwyno, mewn perthynas â gwaredu tir. Gall y cyfarwyddydau hefyd gynnwys terfyn amser ar gyfer rhoi hysbysiad, yn ogystal â chael gwared â'r gofyniad i hysbysu. Gall y cyfarwyddydau fod yn rhai cyffredinol i bob Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig penodol, neu i fathau arbennig o Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig. Gallant hefyd wneud darpariaeth am hysbysiadau yn gyffredinol, am hysbysiadau penodol neu am fath arbennig o hysbysiadau.	Bydd y cyfarwyddydau'n pennu'r math o warediadau a thrafodiadau y mae'n rhaid i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig hysbysu Gweinidogion Cymru amdanynt. Bydd y cyfarwyddydau hefyd yn pennu'r amgylchiadau lle nad oes angen hysbysiad. Bydd y cyfarwyddydau'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chynnwys yn yr hysbysiad a'r cyfnod amser y mae'n rhaid rhoi'r hysbysiad ynddo. Bydd hyn yn amrywio yn dibynnu ar y math o hysbysiad a gaiff ei roi. Bydd hysbysiadau'n ôl-weithredol ac fe ganiateir darparu gwybodaeth am warediadau rheolaidd penodol mewn ffurflen gyfnodol (chwarterol).
Adran 18	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy reoliadau, wneud y cyfryw ddarpariaeth sy'n diwygio, yn diddymu neu'n dirymu unrhyw ddeddfiad y maent yn ei ystyried yn briodol o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth a wneir gan y Bil hwn neu oddi tano, neu at ddiben rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth a wneir o dan y Bil hwn.	Bydd y pŵer hwn yn cael ei ddefnyddio yn unig i wneud newidiadau i ddeddfwriaeth arall, y mae eu hangen o ganlyniad i ddarpariaethau'r Bil.

Adran	Disgrifiad	Bwriad y Polisi
Adran 19	Caiff Gweinidogion Cymru wneud gorchymyn sy'n nodi bod darpariaethau'r Bil yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru. Caiff Gweinidogion Cymru bennu diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol a gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol, neu ddarpariaeth i arbed mewn cysylltiad â phan fydd darpariaeth yn y Ddeddf hon yn dod i rym.	Bwriedir i adrannau 7A i 7D o Ddeddf Tai 1996, a fewnosodir gan Atodlen 1 i'r Bil, ddod i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Yr effaith a gaiff hyn yw y bydd Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn cael chwe mis i leihau nifer y penodedigion o awdurdodau lleol ar eu byrddau fel ei fod yn llai na'r terfyn o 24%. Bydd gweddill y darpariaethau yn Atodlen 1 sy'n ymwneud â dylanwad awdurdod lleol dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn dod i rym chwe mis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Bwriedir i weddill y darpariaethau yn y Bil ddod i rym ddeufis ar ôl y Cydsyniad Brenhinol. Gwneir darpariaethau pontio addas lle bo angen hynny, er enghraifft bydd trefniadau pontio i gyfarwyddo'r defnydd o symiau yn y gronfa enillion o warediadau a phennu terfyn amser ar gyfer eu defnyddio nes diddymu'r gofyniad.
Atodlen 1 Yn mewnosod adran 7J(1) yn Neddf Tai 1996	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, ddarparu nad yw darpariaethau sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar ddylanwad awdurdodau lleol dros Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn gymwys i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig sy'n is-gwmnïau dan reolaeth lwyr awdurdodau lleol.	Defnyddir y pŵer yn unig os bydd y safbwynt presennol o ran polisi yn newid i ganiatáu i awdurdodau lleol fod yn "rhiant" i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig, sy'n rhywbeth na chaniateir ar hyn o bryd. Mewn sefyllfa lle mae Landlord Cymdeithasol Cofrestredig yn is-gwmni dan reolaeth lwyr awdurdod lleol, ni fydd y cyfyngiadau ar ddylanwad awdurdodau lleol yn gymwys.

Adran	Disgrifiad	Bwriad y Polisi
Atodlen 1 Yn mewnosod adran 7J(7) yn Neddf Tai 1996	Caiff Gweinidogion Cymru, drwy orchymyn, wneud darpariaeth i Landlord Cymdeithasol Cofrestredig sy'n cyfateb i'r disgrifiad a bennir yn y Gorchymyn, gael ei drin fel is-gwmni dan reolaeth lwyr awdurdod lleol at ddibenion adran 7J (y pŵer i ddatgymhwyso darpariaethau sy'n ymwneud â dylanwad awdurdod lleol).	Ar hyn o bryd, mae'r darpariaethau sy'n ymwneud ag is-gwmnïau dan reolaeth lwyr awdurdodau lleol yn adran 7J (y pŵer i ddatgymhwyso darpariaethau sy'n ymwneud â dylanwad awdurdod lleol) yn caniatáu i Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fod yn gwmnïau neu'n gymdeithasau cofrestredig. Bwriedir defnyddio'r pŵer hwn, i drin Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig fel is-gwmni dan reolaeth lwyr awdurdod lleol, pan fo awdurdod lleol yn cynnig model y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y dylai gael ei eithrio rhag darpariaethau sy'n cyfyngu ar ddylanwad awdurdod lleol, yn unig.